

## Diweddariad Polisi'r UE (EU2013.07)

### Atal a rheoli'r broses o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynnol estron

Diweddarwyd: Ebrill 2014

#### Crynodeb o'r prif bwyntiau yn y cynnig

Ar 9 Medi 2013, cynigiodd y Comisiwn Ewropeaidd ddeddfwriaeth COM(2013)620, sy'n anelu at gydlynu ymdrechion Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd i helpu mynd i'r afael â'r bygythiadau a berir gan rywogaethau goresgynnol estron<sup>1</sup>. Nododd y Comisiwn y bydd y pecyn deddfwriaethol arfaethedig yn gwarchod bioamrywiaeth, a hefyd yn canolbwyntio ar y bygythiadau mwyaf difrifol a berir gan y rhywogaethau hyn.

Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar reoli rhestr o 50 rhywogaeth sy'n peri'r pryder mwyaf i'r UE (nid yw'r rhestr wedi'i bennu eto) ac mae'n cyflwyno tri llwybr ar gyfer ymyrraeth:

- **atal eu cyflwyno** drwy osod rheolaethau llymach ar y llwybrau goresgyn a ddefnyddir gan y rhywogaethau hyn;
- **rhybudd cynnar ac ymateb cyflym** o ran canfod rhywogaethau goresgynnol;

<sup>1</sup>Ystyr 'rhywogaethau goresgynnol estron' yw organebau anffroddol y darganfuwyd bod eu cyflwyno neu eu lledaenu yn bygwth bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau. Mae'n bosibl hefyd y gallant gael effaith negyddol ar iechyd dynol neu'r economi. Defnyddir y term 'rhywogaethau goresgynnol anffroddol' hefyd weithiau.

- **rheoli'r** rhywogaethau goresgynnol sydd eisoes wedi'u sefydlu yn yr UE i leihau'r niwed y maent yn ei achosi.

Bydd y broses **atal** yn canolbwyntio ar wahardd mewnforio neu symud rhywogaethau goresgynnol, ac eithrio o dan drwyddedau a roddir ar gyfer gwaith ymchwil a chadwraeth oddi ar y safle. Mae'r rheoliad hefyd yn cynnig gosod mesurau brys os bydd Aelod-wladwriaeth o dan fygythiad gan rywogaeth nad yw'n cael ei nodi yn y rhestr a grybwyllwyd uchod.

Rhaid i bob Aelod-wladwriaeth sefydlu systemau **monitro** ar gyfer canfod rhywogaethau goresgynnol o fewn 18 mis ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig. O fewn 12 mis, rhaid i Aelod-wladwriaethau sefydlu dull o reoli symudiad y rhywogaethau hyn i mewn i'r UE, ac o fewn yr UE. Yn dilyn canfod rhywogaeth oresgynnol, dylai Aelod-wladwriaethau roi mesurau **dileu** ar waith o fewn tri mis a dylai rhoi gwybod i aelodau eraill yr UE.

Dylid rhoi **mesurau rheoli** ar waith ar gyfer rhywogaethau goresgynnol sydd eisoes yn bresennol yn yr UE o fewn 12 mis i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Dylid hefyd sefydlu rhaglen wylidwriaeth i fonitro pa mor effeithiol y mae'r cynlluniau hyn.

**Bydd rhestr o rywogaethau goresgynnol sy'n peri pryder i'r UE** yn cael ei llunio. Bydd yn cynnwys y 3% uchaf o'r 1,500 o rywogaethau goresgynnol estron sydd yn yr UE ar hyn o bryd a bydd yn canolbwyntio ar y rhywogaethau sydd â'r potensial i achosi difrod economaidd sylweddol i Aelod-wladwriaethau, neu sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd, gan gynnwys difrod sy'n deillio o golli bioamrywiaeth. Bydd y rhestr yn cael ei datblygu yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol ac asesiadau risg ac mae'r Comisiwn yn bwriadu cyflwyno rhestr o fewn blwyddyn ar ôl i'r cynnig presennol ddod i rym fel deddfwriaeth. Bydd y pecyn deddfwriaethol arfaethedig yn cael ei ategu â rhwymedigaeth gyfreithiol i Aelod-wladwriaethau ddileu rhywogaethau sydd ar y rhestr hon yn gyflym ar ôl iddynt gael eu canfod. Sail gyfreithiol y cynnig hwn yw Erthygl 192(1) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.<sup>2</sup>

<sup>2</sup>Y Comisiwn Ewropeaidd, *Proposal for a Regulation of the European Parliament and Council on the prevention and*

## Cefndir a chyd-destun y cynnig

*I weld crynodeb o'r camau perthnasol a arweiniodd at ddatblygu'r cynnig deddfwriaethol Ewropeaidd hwn, dylech gyfeirio at ddogfen Defra: Towards an EU Strategy on Invasive Alien Species.<sup>3</sup> I gael adolygiad cynhwysfawr o rywogaethau goresgynnol estron a'u heffeithiau yng Nghymru dylech gyfeirio at y papur ymchwil a luniwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad ym mis Ebrill 2013.<sup>4</sup>*

Ar hyn o bryd mae yna dros 12,000 o rywogaethau anffrodorol yn Ewrop. Mae dros 1,500 ohonynt yn cael eu diffinio yn rhywogaethau goresgynnol estron ac maent yn tyfu'n gyflym o ran nifer, gan achosi difrod werth o leiaf €12.5 biliwn y flwyddyn drwy gostau rheoli/dileu, peryglon i iechyd dynol, difrod i seilwaith a cholli cynnyrch amaethyddol.<sup>5</sup> Mae'r Comisiwn wedi nodi ei fod yn ymwybodol bod llawer o Aelod-wladwriaethau'r UE eisoes yn gwario adnoddau sylweddol ar y gwaith o ymdrin â rhywogaethau goresgynnol, ond nid yw'r ymdrechion hyn yn effeithiol ar lefel Aelod-wladwriaeth yn unig oherwydd y posibilrwydd y byddant yn ail-ymledu ar draws ffiniau Aelod-Wladwriaethau.<sup>6</sup>

Yn 2003, sefydlwyd prosiect Cyflawni Rhestrau Rhywogaethau Goresgynnol ar gyfer Ewrop (DAISIE) i lunio rhestr Ewrop-gyfan o rywogaethau goresgynnol estron.<sup>7</sup> Ar hyn o bryd nid oes fframwaith Ewropeaidd ar gyfer ymdrin â'r rhywogaethau hyn mewn modd cynhwysfawr. Ymdrinnir ag ambell i rywogaeth gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd benodol, gan gynnwys y gyfundrefn iechyd planhigion (2000/29/EC), y

---

*management of the introduction and spread of invasive alien species*, 2013/0307 (COD) [fel ar 28 Hydref 2013]

<sup>3</sup> Defra, *Towards an EU Strategy on Invasive Alien Species*, Mai 2011 [fel ar 12 Tachwedd 2013].

<sup>4</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Nodyn Ymchwil RN-13-006 *Rhywogaethau Goresgynnol Estron*, Ebrill 2013 [fel ar 30 Hydref 2013].

<sup>5</sup> Y Comisiwn Ewropeaidd. *Proposal for a Regulation of the European Parliament and Council on the prevention and management of the introduction and spread of invasive alien species*, 2013/0307 (COD) [fel ar 28 Hydref 2013]

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2013, t.17, para.118

<sup>7</sup> *Delivering Alien Invasive Species Inventories for Europe (DAISIE)* (gwefan) [fel ar 30 Hydref 2013]

Rheoliad Masnach Bywyd Gwylt (338/97), y Gyfarwyddeb Adar (2009/147/EC) a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC). Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn nodi bod y rhan fwyaf o gamau gweithredu presennol yr UE yn hepgor llawer o rywogaethau.

Mae'r Comisiwn yn nodi nad yw'r polisiau / mentrau presennol i reoli rhywogaethau goresgynnol yn effeithiol, o ystyried bod y niferoedd yn codi. Mae'n awgrymu y bydd gweithredu ar y cyd yn sicrhau yr ymateb cyflym hwnnw i rywogaethau newydd sy'n dod i mewn i'r UE. Yn ogystal, er bod gan rai Aelod-wladwriaethau ddeddfwriaeth mewn lle eisoes i ddelio â rhywogaethau goresgynnol, mae'r Comisiwn wedi dadlau y byddant yn elwa o system lle y byddai'n ofynnol i wledydd cyfagos fabwysiadu dull cyffredin. Mae'r UE wedi bod yn gweithio tuag at ddatblygu strategaeth ar rywogaethau goresgynnol ers 2008, gan ystyried yr **Adolygiad o Gyfundrefn Iechyd Planhigion Cyffredin yr UE** a'r **Strategaeth Iechyd Anifeiliaid**.

## Perthnasedd i Gymru

Mae cyfradd sefydlu rhywogaethau goresgynnol yn y DU wedi cynyddu'n gyson ers 1800. Yn 2012, adroddodd astudiaeth gan Defra bod 280 o rywogaethau goresgynnol estron yn y DU ar hyn o bryd, a bod cyfartaledd o 1.4 rhywogaeth ychwanegol wedi sefydlu bob blwyddyn rhwng 2000 a 2010.<sup>8</sup>

Fe wnaeth adroddiad gan CABI, ac a gomisiynwyd gan Defra, amcangyfrif mai'r costau marchnad sy'n gysylltiedig â rhywogaethau goresgynnol estron oedd £1.7 biliwn y flwyddyn yn y DU a £125 miliwn y flwyddyn yng Nghymru. Yn ogystal â'r costau marchnad sy'n deillio o rywogaethau goresgynnol, amcangyfrifwyd mai'r costau nad ydynt yn gostau marchnad, gan gynnwys tarfu ar wasanaethau ecosystem, oedd £96 biliwn yn y DU a £7 biliwn yng

---

<sup>8</sup> Helen E. Roy, Jim Bacon, Björn Beckmann, Colin A. Harrower, Mark O. Hill, Nick JB Isaac, Chris D. Preston, Biren Rathod, Stephanie L. Rorke (2012) *Non-Native Species in Great Britain: establishment, detection and reporting to inform effective decision making*, NERC Centre for Ecology and Hydrology [fel ar 30 Hydref 2013]

Nghymru.<sup>9</sup>

Sefydlwyd Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffroddol Prydain Fawr yn 2005 ac mae'n darparu asesiadau risg ar gyfer rhywogaethau goresgynnol unigol.<sup>10</sup> Yng Nghymru, Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Cymru (WINNS) sy'n gyfrifol am hyn. Cylch gwaith y grŵp yw:

- Darparu fforwm ar gyfer datblygu polisi;
- Cydlynu gwaith ymchwil;
- Codi ymwybyddiaeth am faterion;
- Asesu effeithiau; a
- Gweithredu cynlluniau monitro, gan roi blaenoriaeth i atal rhywogaethau goresgynnol newydd rhag sefydlu.<sup>11</sup>

Mae nifer o fentrau ar waith yng Nghymru i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol. Ynghyd ag Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffroddol Prydain Fawr, mae Grŵp WINNS yn rhedeg "**Atal Lledaeniad - Gwrio, Glanhau, Sychu**", a ddatblygwyd mewn ymateb i ledaeniad Berdys Rheibus yn nyffrydd Cymru, a "**Mynd at Wraidd y Mater**" i dynnu sylw at beryglon cael gwared ar blanhigion dyfrol yn y gwyllt. Hefyd, o dan y *Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gwaharddiad ar werthu pum rhywogaeth o blanhigion goresgynnol, sef Dail-ceiniog Arnofiol, Briweg y Gors Awstralia, Briallu Dŵr, Rhedyn y Dŵr a Dail Parot. Mae Grŵp WINNS wedi nodi rhestr o 111 o rywogaethau goresgynnol sy'n bresennol yng Nghymru, gan gynnwys 15 o rywogaethau rhybudd uchel, sydd wedi cael eu blaenoriaethu i atal eu sefydlu yng Nghymru. Mae 11 o rywogaethau yn cael eu dileu

<sup>9</sup> F. Williams, R. Eschen, A. Harris, D. Djeddour, C. Pratt, RS Shaw, S. varia, J. Lamontagne-Godwin, SE Thomas, ST Murphy (2010) *The Economic Cost of Invasive Non-Native Species on Great Britain*, Adroddiad gan CABI, a gomisiynwyd gan Defra 2010 [fel ar 29 Hydref 2013].

<sup>10</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *E&S(4)-14-13 papur 5: Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffroddol*, 9 Mai 2013 [fel ar 29 Hydref 2013].

<sup>11</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Nodyn Ymchwil RN-13-006 *Rhywogaethau Goresgynnol Estron*, Ebrill 2013 [fel ar 30 Hydref 2013].

ar hyn o bryd ac mae 31 o rywogaethau goresgynnol sefydledig yn destun rhaglenni rheoli.

Mae'r 15 o rywogaethau rhybudd uchel, nad ydynt yn bresennol yng Nghymru ar hyn o bryd, ond sy'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer ymateb cyflym i atal sefydlu a lledaenu, yn cynnwys: Gwymon Siapaneaidd, Misglen Quagga, Gwichiad Rapa, Gwyfyn Ymdeithiol y Derw, Cacynen Asia, Perdysen Furgyn, pob rhywogaeth anffroddol o Gimwch yr Afon, Ceirw Dŵr Tseineaidd, Parotanod Mynach, Marchlyffant America, Madfall Ddŵr Alpaidd a'r Fadfall Ddŵr Gribog Eidalaid. Er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o ystyried rhywogaethau blaenoriaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ADAS i fireinio'r fframwaith penderfynu hwn.<sup>12</sup>

Mae'r grŵp WINNS wedi gwneud archwiliad o'r holl brosiectau ymchwil a rheoli yn ymwneud â rhywogaethau goresgynnol a gynhaliwyd yng Nghymru yn 2013. Canfu fod y rhan fwyaf o'r prosiectau hyn wedi cael eu harwain gan asiantaethau Llywodraeth Cymru (h.y. Adnoddau Naturiol Cymru).<sup>13</sup>

Ym mis Mai 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies AC, y byddai £1.5 miliwn ar gael ar gyfer prosiectau Cronfa Ecosystemau Gwydn sy'n hybu iechyd ecosystemau yng Nghymru, gan gynnwys rheoli rhywogaethau goresgynnol, adfer cynefinoedd blaenoriaeth neu wella cysylltedd ecolegol. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweinyddu'r gronfa hon, a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru sy'n asesu'r ceisiadau am arian.<sup>14</sup>

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru, *Papur ar gyfer y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Atodiad A* 13 Mehefin 2013 [fel ar 30 Hydref 2013].

<sup>13</sup> Gweithgor Rhywogaethau Goresgynnol Anffroddol Cymru, *INNS Action Audit*, Mehefin 2013 [fel ar 11 Tachwedd 2013].

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Mai 2012 *Cyllid ychwanegol ar gyfer cydnerthedd ecosystemau* [Fel ar 18 Mawrth 2013]

## Safbwynt Llywodraeth y DU

Cyhoeddodd Defra Femorandwm Esboniadol ar gynigion y Comisiwn ar 10 Medi 2013. Er bod Defra yn cefnogi dull cydgyssylltiedig o reoli rhywogaethau goresgynnol, mae'n beirniadu cynnig y Comisiwn ar gyfer llunio rhestr flaenoriaeth o 50 rhywogaeth, gan ddweud ei fod yn ffraciwn bychan o'r rhywogaethau sy'n cael eu masnachu yn y DU ac nad oes cyfiawnhad ar gyfer y ffigur terfyn.<sup>15</sup> Dywedodd Defra hefyd fod y mesurau a gynigir, i raddau helaeth, yn adlewyrchu'r camau a gymerwyd eisoes yn unol â'r Strategaeth Fframwaith GBINNS, sydd wedi bod ar waith ers 2008 ac sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.<sup>16</sup>

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

Ar 16 Rhagfyr 2013, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau datganiad ynghylch cynigion yr UE. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud na fydd cynigion yr Undeb Ewropeaidd yn newid rheolaethau presennol Llywodraeth Cymru yn sylweddol, ond mae'n annog cydweithrediad rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE, sy'n arbennig o bwysig o ystyried lledaeniad rhywogaethau ar draws ffiniau rhyngwladol. Mae hefyd yn awgrymu y gellid defnyddio'r Bil Amgylchedd, sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru<sup>17</sup>, i addasu strategaethau rheoli rhywogaethau presennol ar raddfa dirwedd ehangach, a darparu dull mwy strategol o reoli rhywogaethau ledled Cymru.<sup>18</sup>

<sup>15</sup> Defra, Memorandwm Esboniadol ar ddeddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd, 13457/13 *Proposal for a Regulation of the European Parliament and of the Council on the prevention and management of the introduction and spread of invasive alien species*, 10 Medi 2013 [fel ar 30 Hydref 2013].

<sup>16</sup> Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffrodorol Prydain Fawr, *GB Strategy Review 2013*, Medi 2013 [fel ar 30 Hydref 2013].

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru, *Y Bil Amgylchedd*, 23 Hydref 2013 [fel ar 29 Hydref 2013].

<sup>18</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *E&S(4)-14-13 papur 4: Cyfoeth Naturiol Cymru*, 9 Mai 2013 [fel ar 29 Hydref 2013].

## Cynnydd y goflen yn sefydliadau'r UE

*Bydd yr adran hon yn cael ei diweddarw wrth i'r trafodaethau barhau ym Mrwsel ac wrth i safbwyntiau swyddogol sefydliadau'r UE ddod yn glir.*

### Monitro'r goflen

Cyn i'r Rheoliad ddod yn gyfraith yr UE, mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau a Senedd Ewrop ystyried y cynigion drwy'r 'weithdrefn ddeddfwriaethol arferol' (penderfyniad ar y cyd), sydd angen cael cytundeb rhwng y sefydliadau Ewropeaidd.

### Senedd Ewrop

Y prif bwyllgor fydd yn gyfrifol am y cynnig hwn yn Senedd Ewrop fydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Bwyd (y Pwyllgor').

Ar 30 Ionawr 2014, cymeradwyodd Senedd Ewrop welliant yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau unigol rannu'r rheoliad cyfan mewn amgylchiadau penodol, er mwyn caniatáu i fentrau fridio rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid o'r tu allan i Ewrop o fewn yr UE. Ni fyddai angen cymeradwyaeth y Comisiwn ar gyfer rhanddirymiad o'r fath a gellid ei gyfiawnhau ar unrhyw sail yn ymwneud â budd economaidd.

Roedd ASEau hefyd eisiau eithriadau ar gyfer rhywogaethau estron sydd dim ond yn lledaenu i rannau o'r UE.<sup>19</sup> Galwodd Senedd Ewrop am restr benagored o rywogaethau estron sy'n peri pryder i'r Undeb, yn hytrach na chynnig cychwynol y Comisiwn, a oedd yn cyfyngu'r rhestr i 50 o rywogaethau.<sup>20</sup>

<sup>19</sup> Ends Europe, *EU lawmakers hammer out deal on invasive species*, 6 Mawrth 2014 [fel ar 20 Mawrth 2014]

<sup>20</sup> Ends Europe, *EU lawmakers hammer out deal on invasive species*, 6 Mawrth 2014 [fel ar 20 Mawrth 2014]

## Cyngor y Gweinidogion

Mae **Cyngor yr Amgylchedd** yn arwain y goflen hon yng Nghyngor y Gweinidogion. Trafododd y cynigion am y tro cyntaf ar 13 Rhagfyr 2013.<sup>21</sup>

Roedd barn yn gymysg ynghylch a ddylai'r cynnig gael ei ymestyn i rywogaethau sy'n digwydd yn naturiol mewn rhai rhannau o'r UE. Daethpwyd i'r casgliad y byddai rhywogaethau sy'n frodorol i un rhan o'r UE, ond sy'n estron, goresgynnol a niweidiol mewn rhanbarthau eraill, yn cael eu trin drwy gydweithredu rhanbarthol.<sup>22</sup>

Mae'r rhan fwyaf o Aelod-wladwriaethau am ddileu'r cap arfaethedig ar nifer y rhywogaethau (50 o rywogaethau).

## Cytundeb

Daeth swyddogion Aelod-wladwriaethau a Senedd Ewrop i gytundeb amodol ar 5 Mawrth, 2014. Cafodd testun y cyfaddawd ei fabwysiadu ar 19 Mawrth 2014.

Cafodd galwad y Senedd ar gyfer rhanddirymiaidau cenedlaethol i'r cyfyngiadau arfaethedig ei wrthod gan Lywyddiaeth Groeg. Cafodd gwelliant y Senedd i eithrio rhywogaethau estron sydd dim ond yn lledaenu i rannau o'r UE ei wrthod hefyd gan y Llywyddiaeth.<sup>23</sup>

Cefnogodd y Llywyddiaeth welliant y Senedd yn ymwneud â rhestr y Comisiwn o 50 o rywogaethau goresgynnol targed. O dan y cytundeb hwn, bydd rhestr benagored yn blaenoriaethu rhywogaethau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n achosi'r difrod mwyaf sylweddol.

Bydd yn rhaid i'r cytundeb gael ei gymeradwyo yn ffurfiol gan y Senedd a Chyngor y Gweinidogion. Cynhelir y bleidlais yn sesiwn lawn y Senedd ar 15 Ebrill 2014<sup>24</sup> a bydd y Cyngor yn gwneud ei benderfyniad ar ôl pleidlais y Senedd.<sup>25</sup>

<sup>21</sup> Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, **Main Topics for the Coming Fortnight: 2-15 Rhagfyr 2013**: Dydd Gwener 13 Rhagfyr 2013, Cyngor yr Amgylchedd - trosolwg o'r agenda [fel ar 4 Mawrth 2014]

<sup>22</sup> Ends Europe, **EU lawmakers hammer out deal on invasive species**, 6 Mawrth 2014 [fel ar 20 Mawrth 2014]

<sup>23</sup> Ends Europe, **EU lawmakers hammer out deal on invasive species**, 6 Mawrth 2014 [fel ar 20 Mawrth 2014]

<sup>24</sup> Ends Europe, **Compromise reached on tackling invasive species**, 21 Mawrth 2014 [fel ar 24 Mawrth 2014]

<sup>25</sup> Llywyddiaeth Groeg, **Protecting our ecosystem from invasive alien species**, 19 Mawrth 2014, [fel ar 25 Mawrth 2014]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Elfyn Henderson** ([elfyn.henderson@cymru.gov.uk](mailto:elfyn.henderson@cymru.gov.uk))

Y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gregg Jones** ([gregg.jones@cymru.gov.uk](mailto:gregg.jones@cymru.gov.uk))

Swyddfa'r UE

Y Gwasanaeth Ymchwil

National Assembly for Wales

Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA